

NOSC 2026 Rhif 158

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL

Cyfarwyddydau Gwasanaethau
Meddygol Sylfaenol (Cynllun
Imiwneiddio Niwmococol)
(Gwasanaeth Atodol o dan
Cyfarwyddyd) (Cymru) 2026

Gwnaed

27 Awst 2026

Yn dod i rym

1 Hydref 2026

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 45(1), (2), (3)(a) i (d), (4) a (5), 203(9) a (10), a 204(1)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cymhwyso a dod i rym

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Atodol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2026.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(3) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Hydref 2026.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

(1) 2006 p. 42. Mae diwygiadau i adran 203 nad ydynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

ystyr “contract GMC” (“*GMS contract*”) yw contract gwasanaethau meddygol cyffredinol yr ymrwymir iddo yn unol ag adran 42 o’r Ddeddf;

ystyr “contractwr GMC” (“*GMS contractor*”) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo i contract GMC ag ef;

ystyr “contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen” (“*engaged GMS contractor*”) yw contractwr GMC sy’n cytuno â Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau o dan Gynllun Imiwneiddio Niwmococol o dan drefniant a wneir yn unol â pharagraff 4(1) neu (2);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “Llyfr Gwyrdd” (“*Green Book*”) yw’r cyhoeddiad “Immunisation against infectious disease”(1);

ystyr “y Rheoliadau Contractau GMC” (“*the GMS Contracts Regulations*”) yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023(2).

Sefydlu Cynllun Imiwneiddio Niwmococol

3.—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol, fel rhan o’i waith o gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 41(3) o’r Ddeddf (er mwyn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol o fewn ei ardal, neu sicrhau bod gwasanaethau o’r fath yn cael eu darparu yn ei ardal), sefydlu, gweithredu ac, fel y bo’n briodol, ddiwygio Cynllun Imiwneiddio Niwmococol yn unol â’r Cyfarwyddydau hyn.

(2) Diben sylfaenol y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol yw sicrhau bod cleifion, yn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol, sydd mewn perygl o haint niwmococol, yn cael cynnig eu himiwneiddio rhag haint o’r fath(4).

Cynllun Imiwneiddio Niwmococol

4.—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gynnig ymrwymo i drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau o dan ei Gynllun Imiwneiddio Niwmococol i gleifion cofrestredig—

-
- (1) Ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book>.
- (2) O.S. 2023/953 (Cy. 155).
- (3) Mae diwygiadau i adran 41 nad ydynt yn berthnasol i’r Cyfarwyddydau hyn.
- (4) Ceir rhagor o fanylion am y personau sy’n gymwys i gael eu brechu yn y Llyfr Gwyrdd. *Gweler* hefyd baragraff 4(6) am y diffiniad o “claf sydd mewn perygl”.

- (a) yn y lle cyntaf, gyda phob contractwr GMC, mewn perthynas â chleifion cofrestredig y contractwr GMC hwnnw, a
- (b) wedi hynny, gydag—
 - (i) un neu ragor o bractisau arweiniol clwstwr, mewn perthynas ag—
 - (aa) cleifion cofrestredig pob practis arweiniol clwstwr o'r fath, a
 - (bb) cleifion cofrestredig unrhyw gontractwyr GMC yn ei glwstwr nad ydynt wedi cytuno, o fewn y cyfnod amser sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, i ddarparu'r Cynllun Imiwneiddio Niwmococol o dan baragraff (a), neu
 - (ii) contractwr GMC sydd wedi cytuno i ddarparu'r Cynllun Imiwneiddio Niwmococol o dan baragraff (a), i hefyd ddarparu'r gwasanaeth i gleifion cofrestredig contractwr GMC arall neu grŵp arall o gontractwyr GMC, yn amodol ar gytundeb y contractwr GMC arall neu'r grŵp arall o gontractwyr GMC.

(2) Caiff pob Bwrdd Iechyd Lleol hefyd gynnig ymrwymo i drefniadau gyda phob contractwr GMC ar gyfer darparu gwasanaethau o dan ei Gynllun Imiwneiddio Niwmococol i bersonau nad ydynt yn gleifion cofrestredig, pan fo'n briodol, ar yr amod—

- (a) bod personau o'r fath yn gymwys o dan gategori (c) yn y diffiniad o "claf sydd mewn perygl" yn is-baragraff (6), a
- (b) bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn neilltuo'r person i'r contractwr GMC ar gyfer brechu.

(3) Pan na fydd cleifion cofrestredig contractwr GMC yn cael y gwasanaeth a amlinellir yn y Cyfarwyddydau hyn (pa un ai gan y contractwr GMC y maent yn gleifion cofrestredig mewn perthynas ag ef neu gan bractis arweiniol clwstwr neu gan gontractwr GMC sydd wedi cytuno i ddarparu'r Cynllun Imiwneiddio Niwmococol ar ran y contractwr GMC y mae'r claf wedi ei gofrestru ag ef) o ran y Bwrdd Iechyd Lleol—

- (a) rhaid iddo wneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol yn cael eu darparu i gleifion cofrestredig y contractwr GMC hwnnw mor agos i fangre practis y contractwr GMC hwnnw ag sy'n rhesymol bosibl, a
- (b) caiff ddarparu'r gwasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol i'r cleifion hynny mewn unrhyw ffordd y mae'n credu ei bod yn briodol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, drwy ddarparu'r gwasanaeth ei

hun neu drwy drefnu i'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan unrhyw gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen).

(4) Pan wneir trefniadau rhwng practis arweiniol clwstwr a Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag is-baragraff (1)(b)(i), rhaid i bob contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gydweithredu (yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Contractau GMC) â'r contractwyr GMC eraill sydd wedi eu cymryd ymlaen, ac â phractis arweiniol y clwstwr yn ei glwstwr, er mwyn i bractis arweiniol y clwstwr gwblhau, erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blun sy'n nodi'r trefniant ar gyfer darparu gwasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol i gleifion cofrestredig y contractwyr GMC ar draws y clwstwr.

(5) Pan wneir trefniadau rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC o dan is-baragraff (1) neu (2), rhaid i'r trefniadau hynny, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol (neu ran o flwyddyn) y maent yn ymwneud â hi, hefyd gynnwys—

- (a) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cwblhau er boddhad y Bwrdd Iechyd Lleol, cyn y darperir unrhyw wasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol ac erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blun sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol gan y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gan gynnwys, fan lleiaf—
 - (i) y dyddiadau a'r amseroedd pan fydd gwasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol yn cael eu darparu,
 - (ii) sut y bydd y contractwr GMC yn parhau i ddarparu, yn ddi-dor, ei wasanaethau unedig (fel y'u diffinnir gan reoliad 3(1) o'r Rheoliadau Contractau GMC)(1) tra bo'n gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, a
 - (iii) unrhyw fanylyn neu sicrwydd arall y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdano gan y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen;
- (b) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn datblygu ac yn cynnal cofrestr (ei "Cofrestr Cynllun Imiwneiddio Niwmococol", a all gynnwys cofnodion sydd

(1) Diwygiwyd y diffiniad o "gwasanaethau unedig" yn rheoliad 3(1) gan reoliad 4 o O.S.C. 2026/17. Mae diwygiadau eraill i reoliad 3(1) nad ydynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

wedi eu tagio'n electronig mewn cronfa ddata gyfrifiadurol ehangach) o'r holl gleifion sydd mewn perygl y mae'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen i gynnig eu himiwneiddio rhag haint niwmococol;

- (c) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn ymrwymo—
 - (i) i gynnig brechiadau rhag haint niwmococol i—
 - (aa) pob claf sydd mewn perygl ac sy'n glaf cofrestredig, a
 - (bb) unrhyw bersonau nad ydynt yn gleifion cofrestredig ac sydd wedi eu neilltuo i'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen o dan is-baragraff (2), a
 - (ii) mewn perthynas â'r cleifion hynny sydd mewn perygl ac sy'n 65 oed neu'n hŷn, i wneud y cynnig hwnnw o fewn 12 wythnos i'r person ddod yn gymwys;
- (d) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn datblygu dull rhagweithiol ac ataliol o gynnig y brechiadau rhag haint niwmococol drwy fabwysiadu systemau galw ac atgoffa cadarn i gysylltu â chleifion sydd mewn perygl ac sy'n gleifion cofrestredig, er mwyn—
 - (i) sicrhau bod cynifer o'r cleifion hynny â phosibl yn cael y brechiad er budd cleifion sydd mewn perygl, a
 - (ii) cyflawni unrhyw dargedau o ran iechyd y cyhoedd mewn cysylltiad â'r brechiadau hynny;
- (e) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cofnodion meddygol gydol oes a ddelir gan contractwr GMC claf sydd mewn perygl yn cael eu cadw'n gyfredol o ran ei statws imiwneiddio ac, yn benodol, eu bod yn cynnwys—
 - (i) unrhyw gynnig o frechiad sy'n cael ei wrthod, neu
 - (ii) pan fo cynnig o frechiad wedi ei dderbyn—
 - (aa) manylion y cydsyniad i'r brechiad neu'r imiwneiddio (pan fo person wedi cydsynio ar ran claf sydd mewn perygl, rhaid i berthynas y person hwnnw â'r claf sydd mewn perygl gael ei chofnodi hefyd);
 - (bb) rhif swp, dyddiad dod i ben a theitl y brechlyn;
 - (cc) y dos a roddir;

- (dd) dyddiad rhoi'r brechlyn;
 - (ee) pan fo 2 frechlyn yn cael eu rhoi, llwybr rhoi pob brechlyn a safle pigiad pob brechlyn;
 - (ff) unrhyw wrtharwydd i'r brechlyn neu'r imiwneiddio;
 - (gg) unrhyw adwaith niweidiol i'r brechlyn neu'r imiwneiddio;
- (f) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn sicrhau bod gan unrhyw broffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â rhoi brechlyn—
- (i) y profiad, y sgiliau a'r hyfforddiant y mae eu hangen⁽¹⁾ o ran rhoi'r brechlyn hwnnw, a
 - (ii) hyfforddiant o ran adnabod anaffylacsis a'i drin yn y lle cyntaf;
- (g) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn sicrhau ei fod yn glynu wrth y canllawiau cyfredol ym mhennod 3 (Storio, dosbarthu a gwaredu brechlynnau) yn yr argraffiad diweddaraf o'r Llyfr Gwyrdd⁽²⁾;
- (h) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cyflenwi i Iechyd Cyhoeddus Cymru wybodaeth am gleifion, drwy echdynnu data'n awtomatig, at ddibenion monitro faint o gleifion sy'n cael y brechlyn yn lleol ac yn genedlaethol;
- (i) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen—
- (i) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol yn cwblhau gweithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol drwy, er enghraifft, ddiweddarau ei addysg yn rheolaidd, mynd ar gyrsiau perthnasol a ddarperir gan y Byrddau Iechyd Lleol, yn ogystal â dilyn dysgu hunangyfeiriedig, er mwyn gallu dangos bod ganddo wybodaeth ddigonol a sgiliau digonol drwy ei arfarniad ac ailddilysiad blynyddol;
 - (ii) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o dan y Cynllun

(1) Gan ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r cwricwlwm craidd ar gyfer Hyfforddiant Imiwneiddio ar <https://icc.gig.cymru/gwybodaeth-erthygl/adnoddau-a-digwyddiadau-hyfforddiant-imiwneiddio/>.

(2) <https://www.gov.uk/government/publications/storage-distribution-and-disposal-of-vaccines-the-green-book-chapter-3>.

Imiwneiddio Niwmococol yn ystyried unrhyw gynnig o gyrsiau diweddarau addysg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol;

- (iii) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol wedi ei indemnio neu ei yswirio'n ddigonol am unrhyw atebolrwydd sy'n codi o'r gwaith sy'n cael ei wneud;
- (iv) yn cyflenwi i'w Fwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani at ddibenion monitro sut y mae'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol mewn perthynas â'r plan a bennir ym mharagraff (a) a, phan fo'n gymwys, berfformiad y clwstwr mewn perthynas â'r plan a bennir yn is-baragraff (4).

(6) Yn y paragraff hwn—

ystyr “claf cofrestredig” (*“registered patient”*) yw—

- (a) person sydd wedi ei gofnodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol fel rhywun sydd ar restr o gleifion contractwr GMC, neu
- (b) person y mae contractwr GMC wedi ei dderbyn i'w gynnwys ar ei restr o gleifion, pa un a yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cael ei hysbysu bod y person hwnnw wedi ei dderbyn ai peidio, ac nad yw wedi cael ei hysbysu gan y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod wedi peidio â bod ar y rhestr honno,

ac sy'n gymwys i gael gwasanaethau imiwneiddio o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol gan ei fod yn glaf sydd mewn perygl;

ystyr “claf sydd mewn perygl” (*“at-risk patient”*) yw claf sydd mewn perygl o haint niwmococol oherwydd ei fod—

- (a) yn 65 oed neu'n hŷn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno,
- (b) o dan 65 oed ac mewn perygl o haint fel y'i diffinnir yn yr argraffiad diweddaraf o'r Llyfr Gwyrdd(1), neu
- (c) yn berson sy'n profi digartrefedd;

ystyr “clwstwr” (*“cluster”*) yw grŵp o ddarparwyr gwasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ac sydd wedi cytuno i gydweithredu i

(1) Llyfr Gwyrdd, Pennod 25: Niwmococol (“Chapter 25: Pneumococcal”).

ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol (o dan Ran 4 o'r Ddeddf) ar draws ardal ddaeryddol benodedig;

ystyr "Iechyd Cyhoeddus Cymru" (*"Public Health Wales"*) yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlwyd gan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(1);

ystyr "llety â chymorth" (*"supported accommodation"*) yw llety a ddarperir i unigolion y mae angen cymorth arnynt i fyw'n annibynnol, pan ddarperir y cymorth hwnnw mewn cysylltiad â'r llety, gan gynnwys, er enghraifft—

- (a) llety pan ddarperir cymorth i gynorthwyo unigolion i gynnal neu sicrhau tai, i reoli iechyd neu lesiant, i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, neu i gael mynediad at gyflogaeth neu wasanaethau eraill, ni waeth pa fath o ddarparwr neu ddeiliadaeth sydd o dan sylw;
- (b) cymorth ar ffurf darparu canllawiau, cwnsela, cyngor, gofal, goruchwyliaeth a hyfforddiant;

ystyr "person sy'n profi digartrefedd" (*"person experiencing homelessness"*) yw person sy'n cysgu allan; sydd mewn llety brys; neu sydd newydd ddod yn ddigartref ac sydd mewn llety â chymorth;

ystyr "practis arweiniol clwstwr" (*"cluster lead practice"*) yw contractwr GMC sydd wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau o dan Gynllun Imiwneiddio Niwmococol, o dan drefniant a wneir yn unol â pharagraff 4(1), i'w gleifion cofrestredig, ac i gleifion cofrestredig contractwr GMC yn ei glwstwr nad yw'n gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, ac y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cytuno y bydd yn bractis arweiniol clwstwr;

ystyr "proffesiynolyn gofal iechyd" (*"health care professional"*) yw person, heblaw gweithiwr cymdeithasol, sy'n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(2).

(1) O.S. 2009/2058 (Cy. 177).

(2) 2002 p. 17. Diwygiwyd adran 25(3) gan adran 127 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) a pharagraff 17(2) a (3) o Atodlen 10 iddi; erthygl 68 o O.S. 2010/231 a pharagraff 10 o Atodlen 4 iddo; adran 230 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7) a pharagraff 56(b) o Atodlen 15 iddi; ac adran 56 o Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 (p. 16) a pharagraff 2(2) o Atodlen 4 iddi. Mae diwygiadau eraill i adran 25 nad ydynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

Taliadau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol

5.—(1) Pan wneir trefniadau o dan baragraff 4(1) neu (2), rhaid i'r trefniadau hynny, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol (neu ran o flwyddyn) y maent yn ymwneud â hi, hefyd gynnwys trefniadau talu ar gyfer contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, y mae rhaid iddynt alluogi'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen i hawlio taliad o £10.03 fesul brechlyn a roddir.

(2) Unwaith y bydd contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen wedi cyflwyno hawliad am daliad o dan is-baragraff (1), a bod yr hawliad wedi ei awdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol, rhaid gwneud y taliad ar y dyddiad nesaf pan fydd taliad misol Swm Craidd y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol" yw unrhyw gyfarwyddydau, am y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol, a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 45 o'r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr GMC.

Amrywio contract

6. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol amrywio contract GMC y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen fel bod y trefniadau a wneir o dan baragraff 4(1) neu (2) yn rhan o gontract y contractwr GMC hwnnw sydd wedi ei gymryd ymlaen a bod gofynion y trefniadau yn amodau o'r contract.

Datrys anghydfodau

7.—(1) Yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Cynllun Imiwneiddio Niwmococol, neu mewn cysylltiad ag ef, dylai Byrddau Iechyd Lleol a chontractwyr GMC wneud pob ymdrech i ddatrys yr anghydfod yn lleol cyn atgyfeirio'r anghydfod yn ffurfiol drwy weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG" yw'r weithdrefn ar gyfer datrys anghydfodau a bennir ym mharagraffau 106 a 107 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Contractau GMC(1).

Trefniadau eraill

8. Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn darparu gwasanaethau o dan y Cynllun Imiwneiddio Niwmococol naill ai ei hun neu o dan drefniant yn unol â pharagraff 4(3), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol

(1) Diwygiwyd paragraffau 106 a 107 gan reoliad 18 o O.S. 2023/1421 (Cy. 250).

sicrhau bod paragraffau 4(5), 5 a 6 yn gymwys i drefniadau o'r fath fel y byddent i gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen.

Dirymu a darpariaeth drosiannol

9.—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaethau Atodol) (Cymru) 2024⁽¹⁾ wedi eu dirymu.

(2) Mae unrhyw weithred neu anweithred sy'n ymwneud â Chynllun Imiwneiddio Niwmococol yr oedd Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaethau Atodol) (Cymru) 2024 yn gymwys iddo yn union cyn dyddiad cychwyn y paragraff hwn i'w thrin fel gweithred neu anweithred sy'n ymwneud â Chynllun Imiwneiddio Niwmococol y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn gymwys iddo.

Paul Casey

Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal, un o Weinidogion Cymru

27 Awst 2026

(1) WG 2024 No. 22, a ddiwygiwyd gan baragraff 13 o LIC25-30.